

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

32/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

27/06/2017

Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd

Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd

Rhodri Johnson, Prifysgol Abertawe

Sarah Lowe, Llywodraeth Cymru

Donna Lemin, Llywodraeth Cymru

Laura McGinn, Prifysgol Abertawe

Lucie Griffiths, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Johnson, R; Lowe, S; Lemin, D; McGinn L a Griffiths L (2017). *Astudiaeth Cysylltu Data Cefnogi Pobl: Adroddiad Cynnydd*
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 32/2017.
Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-project/?lang=cy>

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lucie Griffiths

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5780

E-bost: lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cynnydd a Chanfyddiadau	6
4.	Casgliadau, Argymhellion a'r Camau Nesaf.....	11
	Atodiad A	13
	Atodiad B	14

1. Cyflwyniad

Cefndir Polisi

- 1.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl (y Rhaglen) yn rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i helpu pobl sy'n agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl.
- 1.2 Yn 2017-18, cyllideb y Rhaglen yw £124.4 miliwn. Mae hon yn gyllideb flynyddol, ac mae cyfanswm y grant sydd ar gael yn newid yn ôl cyfyngiadau cyllidebol. Mae'r Rhaglen yn cefnogi tua 60,000 o bobl bob blwyddyn, a'i nod yw atal problemau drwy gynnig help cyn gynted â phosibl.
- 1.3 Rhoddir dau fath o gymorth – cymorth hirdymor a chymorth byrdymor. Mae cymorth cynhaliath hirdymor yn ceisio helpu pobl i gadw neu sicrhau annibyniaeth ac osgoi'r angen am ymyriadau mwy costus megis mynd i ofal, ac mae gwasanaethau mwy ataliol a byrdymor yn ceisio helpu pobl i osgoi digartrefedd, yn aml yn ystod argyfwng. Mae'r Rhaglen yn un ataliol yn bennaf ac mae hyn yn cyd-fynd â nodau Deddf Tai (Cymru) 2014.
- 1.4 Gweledigaeth y Rhaglen yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n annog annibyniaeth mewn amgylchedd iach a diogel, a'u helpu i gadw'r cartref hwnnw.
- 1.5 Sefydlwyd y Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl i helpu i gynnal ymchwil hydredol i ddangos effaith y Rhaglen a sicrhau effeithiolrwydd a gwerth am arian. Mae'r grŵp yn cynnwys dau aelod o Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl ynghyd â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau, Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)¹/ Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru² a Llywodraeth Cymru.
- 1.6 Datblygwyd Prosiect Cysylltu Data Cefnogi Pobl (y Prosiect) yn dilyn Astudiaeth Ddichonoldeb Cysylltu Data Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru³ a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, a oedd yn dangos ei bod yn ymarferol cynnal astudiaeth feintiol fwy cadarn ac ar raddfa fawr o effaith y Rhaglen yng Nghymru, a hynny gan ddefnyddio data a gysylltwyd drwy ddefnyddio Banc Data SAIL. Cytunodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant i roi arian ar gyfer prosiect 4 blynedd, a bydd angen i adroddiad gael ei gyflwyno ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol hyd at fis Mawrth 2020.
- 1.7 Mae'r Prosiect hefyd yn rhan o Raglen Llywodraeth Cymru i Wneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol⁴, sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DU⁵.

Nodau ac Amcanion y Prosiect

- 1.8 Cafodd y Rhaglen ei datblygu gan ddisgwyl y byddai'r cymorth a gynigir yn helpu i atal digartrefedd, a hefyd yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn hytrach na mynd i ofal hirdymor. O ganlyniad i'r prif ddiben hwn, mae'r Rhaglen hefyd yn disgwyl lleihau'r galw ar y GIG a gwasanaethau eraill.
- 1.9 Archwiliodd yr astudiaeth ddichonoldeb effaith y Rhaglen ar y defnydd o wasanaethau iechyd yn benodol ar gyfer dau awdurdod lleol braenaru. Nod y prif

¹ <https://saildatabank.com/>

² <https://adn.ac.uk/about/network/wales/>

³ <http://gov.wales/statistics-and-research/supporting-people-data-linking-feasibility-study/?skip=1&lang=cy>

⁴ <http://gov.wales/statistics-and-research/making-better-use-existing-data/?skip=1&lang=cy>

⁵ <http://www.esrc.ac.uk/>

brosiect yw ychwanegu at hyn drwy gysylltu sampl Cymru gyfan o ddata Cefnogi Pobl â setiau data iechyd cyffredinol presennol a setiau data gweinyddol eraill ym Manc Data SAIL er mwyn asesu effaith y Rhaglen ar nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â lles ehangach defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Prosiect yn ceisio ateb y cwestiwn ymchwil eang canlynol:

"A yw cael gwasanaethau Cefnogi Pobl yn effeithio ar batrymau defnyddio gwasanaethau cyhoeddus?"

Dros ei oes, nod y Prosiect hwn yw canolbwyntio ar ddangosyddion lles penodol, sef y rhyngweithiad â gwasanaethau iechyd (gofal sylfaenol ac eilaidd), gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau opsiynau tai yn ogystal ag addysg cyn-16. Os bydd adnoddau'n caniatáu, bydd y Prosiect hefyd yn ceisio archwilio'r rhyngweithiadau â'r system cyfiawnder troseddol a chyfranogiad y farchnad lafur.

Amcanion y Prosiect ar gyfer y Flwyddyn Gyntaf

1.10 Mae amcanion y Prosiect ar gyfer y flwyddyn gyntaf fel a ganlyn:

- nodi'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol o ran paratoi ar gyfer casglu'r data a amlinellir yn Nhelerau ac Amodau newydd grant y Rhaglen a gyflwynwyd ac a weithredwyd ym mis Ebrill 2016;
- datblygu amserlen sy'n nodi pryd y dylai pob awdurdod lleol rannu data gweinyddol Cefnogi Pobl â Banc Data SAIL/Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru;
- gweithio i gaffael data gweinyddol Cefnogi Pobl hanesyddol gan yr awdurdodau lleol hynny a all eu darparu;
- cadw cofnod o unrhyw heriau/rhwysterau o ran caffael data gweinyddol cyffredinol Cefnogi Pobl i'w cysylltu;
- dechrau datblygu dulliau gwell o ddadansoddi ac adrodd ar effaith y Rhaglen ar y defnydd o wasanaethau iechyd – bydd gwersi'n cael eu dysgu yn sgil astudiaethau perthnasol a gynhaliwyd yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys yr Astudiaeth Ddichonoldeb Cefnogi Pobl a phrosiectau cysylltu data eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, bydd y Prosiect yn ceisio dysgu o'r dulliau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd, prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, a naill ai addasu neu atgynhyrchu'r dulliau hynny lle bo'n briodol;
- adrodd ar effaith y Rhaglen ar y defnydd o wasanaethau iechyd i gymaint o'r awdurdodau lleol a dargedir ar y cychwyn â phosibl.
- gwneud argymhellion ar gyfer y Prosiect wrth symud ymlaen.

1.11 Cydnabuwyd o'r cychwyn y byddai faint o waith dadansoddi a wneir yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect yn dibynnu i raddau ar allu awdurdodau lleol i ddarparu data yn y flwyddyn ac ansawdd y data hynny, gan fod y Prosiect yn ceisio gwneud defnydd o fformat casglu data gweinyddol newydd i'w gysoni ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Llywodraethu'r Prosiect

- 1.12 Cafodd dadansoddwr Gradd 8 academiaidd ei recriwtio, a dilynodd y trefniadau gwaith y rhai a oedd yn eu lle ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb. Cafodd y dadansoddwr ei osod yng Nghanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru a'i reoli ar y cyd gan yr Ymchwilydd Tai a'r arweinydd Gwneud Gwell Defnydd o Ddata Presennol yn Llywodraeth Cymru.
- 1.13 Adroddodd y Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, yn ei dro, ar hynt y Prosiect i Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, sy'n rhoi cyngor i'r Gweinidog ar gyfeiriad strategol arfaethedig y Rhaglen.

2. Methodoleg

- 2.1 Er mwyn cyflawni amcanion y prif gam a nodwyd ym Mharagraff 1.10 yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect, defnyddiwyd ystod o ddulliau, gan gynnwys:
- datblygu manyleb data sy'n nodi'r data sydd eu hangen gan dimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol ar gyfer y Prosiect (gweler Atodiad B am y fanyleb data);
 - cysylltu â thimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol i gaffael data Cefnogi Pobl;
 - cadw cofnod o heriau a materion y deuir ar eu traws wrth gaffael data, a materion o ran ansawdd y data;
 - arolygu ac archwilio'r data yn gryno ar ôl eu caffael yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect.
- 2.2 Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddiwyd yn fras.

Caffael Data Gweinyddol Cefnogi Pobl

- 2.3 Defnyddiodd yr astudiaeth ddichonoldeb ddata a gysylltwyd rhwng dwy ffynhonnell weinyddol gymhleth (data gweinyddol cyffredinol Cefnogi Pobl a chofnodion iechyd cyffredinol) ar gyfer dau awdurdod lleol braenaru. Bydd y Prosiect llawn yn ceisio caffael y data gan bob awdurdod lleol, ynghyd ag unrhyw setiau data ychwanegol a all alluogi i grwpiau rheoli addas gael eu nodi e.e. data 'opsiynau tai'.
- 2.4 Dylai darllenwyr nodi, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, fod Llywodraeth Cymru yn adolygu Fframwaith Canlyniadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl a bod ymgynghoriad ar Fframwaith Canlyniadau diwygiedig ar y gweill⁶. Gan fod y Fframwaith Canlyniadau yn newid, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar y data gweinyddol cyffredinol a gasglwyd gan awdurdodau lleol yn lle hynny.
- 2.5 Cafodd Telerau ac Amodau newydd grant y Rhaglen eu cyflwyno a'u rhoi ar waith ym mis Ebrill 2016 i gynorthwyo â'r broses casglu data, ac mae manylion y rhain i'w gweld yn Atodiad B.
- 2.6 Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddata 'cyn-2016' ac 'ôl-2016'. Mae data cyn-2016 yn cael eu diffinio fel data a gasglwyd cyn rhoi telerau ac amodau newydd ar waith o 1 Ebrill 2016. Mae data ôl-2016 yn cael eu diffinio fel data a gasglwyd ers rhoi telerau ac amodau newydd ar waith o 1 Ebrill 2016. Fel y nodwyd uchod, yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect, nod yr ymchwilydd oedd caffael data cyn-2016 a data ôl-2016 gan yr awdurdodau lleol hynny a oedd yn gallu eu darparu ac, ar gyfer yr

⁶ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/canllawiau-fframwaith-canlyniadau-drafft-rhaglen-cefnogi-pobl>

awdurdodau lleol nad oeddent yn gallu eu darparu, datblygu amserlen i gaffael data.

- 2.7 Fel gyda'r astudiaeth ddichonoldeb, casglodd yr ymchwilydd wybodaeth gan dimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol er mwyn cadw cofnod o'r heriau a oedd yn gysylltiedig â chaffael data a gwneud argymhellion ar gyfer y Prosiect wrth symud ymlaen (gweler Paragraff 4.4).
- 2.8 Er mwyn caffael setiau data yn ddiennw ac yn ddiogel ar gyfer cysylltu, mae Banc Data SAIL yn defnyddio proses 'holtti ffeiliau' a gwasanaethau 'Trydydd Parti y Gellir Ymddiried Ynndo', Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae ceidwad data'r awdurdod lleol yn paratoi dwy ffeil, a bydd cyfeirnod unigryw'r ddwy ohonynt yn cael ei roi ar gofnod pob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r ffeil gyntaf yn cynnwys unrhyw ddynodwyr e.e. enwau a chyfeiriadau, ac yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel ar ffurf electronig i Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru lle y caiff ei defnyddio i ddod o hyd i rif GIG yr unigolyn. Mae'r rhif GIG yn cael ei amgryptio i greu Maes Cysylltu Dienw sy'n cael ei drosglwyddo'n ddiogel i Fanc Data SAIL ynghyd â'r cyfeirnod unigryw. Mae'r ail ffeil yn cynnwys y data ymchwil 'prif lwyth' h.y. data gweinyddol am y defnydd o wasanaeth Cefnogi Pobl; mae'n cynnwys cyfeirnod unigryw ond nid gwybodaeth ddynodi, ac mae'n cael ei throsglwyddo'n ddiogel ar ffurf electronig i Fanc Data SAIL. Gellir defnyddio'r Maes Cysylltu Dienw a'r cyfeirnod unigryw wedyn i gysylltu'r data ymchwil 'prif lwyth' â'r casgliadau data perthnasol sydd eisoes yn cael eu cadw ym Manc Data SAIL. Fel cam terfynol i sicrhau bod popeth yn ddiennw, mae'r Maes Cysylltu Dienw yn cael ei amgryptio ymhellach cyn iddo fod ar gael i ymchwilwyr.

Y broses ar gyfer gwneud data'n barod ar gyfer ymchwil

- 2.9 Nododd yr astudiaeth ddichonoldeb nifer o heriau wrth greu setiau data parod ar gyfer ymchwil drwy ddefnyddio data gweinyddol cyffredinol Cefnogi Pobl. Felly, un o'r prif heriau a ragwelwyd i'r prif brosiect oedd y data amrywiol ac anghyson a gedwir gan awdurdodau lleol/darparwyr gwasanaeth a'r dasg o gysoni'r data hynny.
- 2.10 Er mwyn lleihau'r dasg o gysoni data, gofynnodd yr astudiaeth ddichonoldeb am set fechan o 'newidynnau aur' craidd gan awdurdodau lleol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth o'r flaenoriaeth uchaf o ran y dadansoddi.
- 2.11 Yn ystod y flwyddyn gyntaf, penderfynwyd y byddai manyleb data yn cael ei darparu i awdurdodau lleol er mwyn nodi'r newidynnau angenrheidiol ar gyfer y Prosiect. Disgwyliad y byddai'r fanyleb data yn lleihau'r dasg o gysoni data ôl-2016 rhwng awdurdodau lleol.
- 2.12 Argymhellwyd y defnydd o restrau cwmpo i awdurdodau lleol er mwyn safoni'r gwaith o gasglu data ac atal problemau yn gysylltiedig â mewnbynnu data anghyson/anghywir. Fodd bynnag, disgwyliad y byddai angen glanhau'r data i ryw raddau o hyd ar ôl eu caffael gan awdurdodau lleol.
- 2.13 Roedd disgwyl i'r awdurdodau lleol hynny a ddywedodd nad oeddent yn cadw unrhyw ddata uwchben a thu hwnt i'r data ar ganlyniadau ddefnyddio'r fanyleb data i gasglu data gweinyddol gan eu darparwyr gwasanaeth.

3. Cynnydd a Chanfyddiadau

Cyflwyniad

- 3.1 Er mwyn rhannu gwybodaeth â'r Prosiect, roedd angen i'r awdurdodau lleol gwblhau nifer o dasgau:
- Sicrhau bod hysbysiadau prosesu teg ar waith i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl y byddai'r data yn cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil
 - Casglu'r data gofynnol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cymorth a gafwyd
 - Trefnu cytundeb datgelu data rhwng yr awdurdod lleol a Banc Data SAIL
 - Cwblhau ffurflen Banc Data SAIL i gytuno i rannu gwybodaeth
 - Sicrhau bod y data yn y fformat gofynnol a'u lanlwytho'n ddiogel i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Banc Data SAIL
- 3.2 Dylid nodi nad oedd angen cytundeb datgelu data fel mater o drefn rhwng awdurdodau lleol a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gan fod rôl y Gwasanaeth fel 'Trydydd Parti y Gellir Ymddiried Ynddo' yn y broses hollti ffeiliau wedi'i chwmpasu gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Banc Data SAIL a'r Gwasanaeth.

Cynnydd ym mlwyddyn gyntaf y Prosiect

Recriwtio ymchwilydd

- 3.3 Er y cytunwyd ym mis Chwefror 2016 i roi arian ar gyfer blwyddyn gyntaf y Prosiect, gyda dyddiad dechrau arfaethedig o fis Ebrill 2016, gwnaed hynny ar y sail mai dim ond y flwyddyn gyntaf a fyddai'n cael ei hariannu, a hynny oherwydd yr etholiadau a oedd i ddod. Cydnabuwyd y byddai hyn yn achosi trafferth o ran recriwtio ymchwilydd am un flwyddyn, ac ar ôl hynny cafodd arian ar gyfer tair blynedd ychwanegol y Prosiect ei sicrhau ym mis Gorffennaf 2016. Er bod un o ymchwilyddwr Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru o Lywodraeth Cymru yn gallu dechrau gweithio'n rhan amser ar y Prosiect o fis Medi 2016, nid oedd yr ymchwilydd Cefnogi Pobl Gradd 8 academaidd, llawn amser, yn y swydd tan fis Ionawr 2017, gan olygu nad oedd llawer o amser i gynnal gweithgareddau'r Prosiect erbyn diwedd ei flwyddyn gyntaf, sef mis Mawrth 2016.

Caffael data

- 3.4 Er hynny, gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn amcanion y flwyddyn gyntaf:
- Gyda thri eithriad, ymatebodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol i gais yr ymchwilyddwr am wybodaeth, ac mae'r heriau a gafodd wedi'u crynhoi isod (gweler Paragraffau 3.12 i 3.22).
 - Ers i'r astudiaeth ddichonoldeb nodi y byddai dulliau awdurdodau lleol o gofnodi data ac ansawdd y data hynny yn debygol o amrywio'n sylweddol, canolbwyntiwyd ar gaffael data gan gymaint o awdurdodau lleol â phosibl erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf ac ar archwilio'r data ar y cychwyn er mwyn profi'r broses gaffael ac archwilio ansawdd a chysondeb y data. Mae hyn wedi sicrhau sylfaen gadarn ar gyfer yr ail flwyddyn, ac yn rhoi mwy o amser i sicrhau bod y data'n gyflawn, yn gadarn ac yn gymaradwy ledled Cymru. Cafodd data cyn-2016 a data ôl-2016 eu caffael gan wyth awdurdod lleol. Roedd cyfraddau cysylltu'r mwyafrif o setiau data a ddarparwyd ar gyfer y Prosiect yn uchel

(uwchben 85%) a, lle'r oedd cyfraddau'n is, roedd hyn yn gyffredinol am reswm y gall yr ymchwilydd fynd i'r afael ag ef yn ystod yr ail flwyddyn drwy weithio gyda thimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol. Ar y cyfan, rheswm awdurdodau lleol dros beidio â darparu data cyn-2016 yw nad oedd y data ar gael neu nad oedd yn bosibl eu rhannu, e.e. am nad oedd hysbysiadau prosesu teg yn cael eu hystyried yn briodol.

- Wrth ganolbwyntio ar yr awdurdodau lleol hynny a oedd yn debygol o allu darparu data yn ystod y flwyddyn gyntaf, ni chafodd amserlenni ar gyfer caffael data gan yr awdurdodau lleol eraill eu trafod rhyw lawer a, thua diwedd y flwyddyn gyntaf, cawsant eu gohirio tan yr ail flwyddyn.
- O ran dechrau datblygu dulliau gwell o ddadansoddi ac adrodd ar effaith y Rhaglen ar y defnydd o wasanaethau iechyd, canolbwyntiwyd ar gaffael data gan awdurdodau lleol yn ystod yr amser cyfyngedig a oedd ar gael yn hytrach na datblygu dulliau dadansoddi gwell neu ddadansoddi'r dangosyddion ar gyfer y defnydd o wasanaethau iechyd. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu cario ymlaen i'r ail flwyddyn.
- Mae nifer o argymhellion lefel uchel ar gyfer y Prosiect wrth symud ymlaen wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, a bydd yr ymchwilydd hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso i ystyried y ffyrdd gorau o ymateb i ystod o 'wersi a ddysgwyd' mwy manwl, ymarferol sy'n ymwneud â chasglu data a'u paratoi, prosesu a rhannu e.e. gweithio gyda Banc Data SAIL a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i wneud y broses o lanlwytho data yn symlach.

- 3.5 Nid oedd nifer o awdurdodau lleol mewn sefyllfa i ddarparu data a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Telerau ac Amodau newydd o'r dyddiad gofynnol (1 Ebrill 2016), ond maent yn bwriadu darparu data ar ôl 1 Ebrill 2016 pan fydd y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i rannu data wedi'i rhoi ar waith.
- 3.6 Darparodd awdurdodau lleol Abertawe a Blaenau Gwent, a rannodd ddata ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb, ddata wedi'u diweddarau ar gyfer blwyddyn gyntaf y Prosiect. Darparodd Abertawe ddata ychwanegol gan yr Uned Cymorth Tenantiaeth (2011 i 2015) a darparodd Blaenau Gwent set data pobl hŷn ychwanegol (2010 i 2017).
- 3.7 Ymhlith yr awdurdodau lleol a ddarparodd ddata ychwanegol (mae'r blynyddoedd y darparwyd data ar eu cyfer i'w gweld mewn cromfachau lle y darparwyd mwy na 100 o gofnodion ar gyfer y flwyddyn) roedd:
- Caerffili (2015 i 2017);
 - Caerdydd (2015 i 2017)⁷;
 - Merthyr (2013 i 2015);
 - Casnewydd (2014 i 2017);
 - Rhondda Cynon Taf (2014 i 2017);
 - Torfaen (2014 i 2016).
- 3.8 Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid oedd tri awdurdod lleol wedi cymryd rhan yn y Prosiect, felly bydd angen i'r ymchwilydd a thîm Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru wneud mwy i gydweithio â'r awdurdodau lleol hyn yn ystod yr ail flwyddyn.

⁷ Mae awdurdod lleol Caerdydd wedi darparu data y gellir eu cysylltu pan fydd y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i rannu data wedi'i rhoi ar waith. Fodd bynnag, nid oes cytundeb datgelu data ar waith ar hyn o bryd, felly ni ellir cysylltu na dadansoddi'r data eto.

3.9 Mae'r 11 awdurdod lleol sy'n weddill:

- wedi cadarnhau bod y ddogfennaeth gyfreithiol anghenrheidiol i rannu data ar waith, ond nad oes gan yr un ohonynt gytundeb datgelu data ar waith gyda Banc Data SAIL. Mae hwn yn nod ar gyfer yr ail flwyddyn.
- wedi rhoi gwybod na allant rannu unrhyw ddata cyn-2016. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys materion cyfreithiol, y ffaith nad ydynt yn cadw data ar lefel unigolyn a diffyg adnoddau. Argymhellir y dylid penderfynu p'un a ddylid parhau i fynd ar drywydd data cyn-2016 gan yr awdurdodau lleol hyn drwy ymgynghori â Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl yn ystod yr ail flwyddyn.

Datblygu Model Gwrthbwysio Cost

- 3.10 Archwiliodd yr astudiaeth ddichonoldeb yn fras yr opsiynau ar gyfer creu model gwrthbwysio cost i Gymru yn debyg i fodel gwrthbwysio cost Cefnogi Pobl Capgemini a ddefnyddir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac sydd eisoes wedi'i gymhwyso gan rai awdurdodau lleol neu Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yng Nghymru e.e. Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent. Daethpwyd i'r casgliad y gallai model gwrthbwysio cost gael ei gymhwyso o bosibl i dderbynwyr arian Cefnogi Pobl y darperir data i SAIL ar eu cyfer, gan alluogi i'r buddiannau net amcangyfrifedig gael eu hadrodd ar ffurf ranedig gan awdurdodau lleol, grwpiau derbyn ac ati.
- 3.11 Er y derbyniwyd y byddai angen i'r gwaith i greu model gwrthbwysio cost fod yn faes gwaith ar wahân i'r Prosiect Cysylltu Data, mae cyfle wedi codi i weithio gydag economegydd o Lywodraeth Cymru i asesu dichonoldeb creu model gwrthbwysio cost ym Manc Data SAIL yn fanylach ac i ddrafftio manyleb ar gyfer model. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn yr ail flwyddyn.

Data Cefnogi Pobl

- 3.12 Fel y nodwyd uchod, ac ar gyfer rhai o'r materion a nodwyd isod, mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith mai ym mis Medi 2016 y cafodd y fanyleb data ei darparu h.y. beth amser ar ôl i'r Telerau ac Amodau diwygiedig gael eu cyflwyno, mae rhai dulliau cofnodi awdurdodau lleol yn dal i fod yn anghyson. Er enghraifft:
- ni chasglwyd pob eitem o ddata anghenrheidiol i gysylltu data'n llwyddiannus gan bob awdurdod lleol, megis codau post a rhyw;
 - ni chofnodwyd disgrifiadau o'r mathau o gymorth sydd eu hangen mewn fformat safonol ym mhob awdurdod lleol;
 - yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, cafwyd nifer fach o achosion lle na chofnodwyd y prif anghenion fel rhan o'r data gweinyddol ond, mewn rhai awdurdodau lleol, ni chofnodwyd y prif anghenion mewn hyd at 30% o achosion fel rhan o'r data gweinyddol a ddarparwyd i Fanc Data SAIL yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect. Mae rhagor o ymchwil wedi'i wneud a bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys wrth symud ymlaen;
 - weithiau, mae awdurdodau lleol a darparwyr yn dehongli'r hyn y dylid ei ddarparu yn erbyn yr un eitem o ddata yn wahanol.

Fel y nodwyd uchod, mae amser wedi bod yn brin yn ystod blwyddyn gyntaf y Prosiect i adolygu a dadansoddi'r data, felly gall rhagor o broblemau godi gyda'r data wrth i fwy o waith dadansoddi gael ei wneud. Er enghraifft, mae archwiliadau cychwynnol o'r data yn nodi nad yw anghenion eilaidd a thrydyddol yn cael eu cofnodi ym mhob achos, ond y byddai angen gwneud mwy o waith drwy ymgynghori â thimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol i archwilio i ba raddau y mae hyn fel y gellid disgwyl.

Er mwyn gwella'r ffordd y caiff data eu casglu a'u safoni, ac ansawdd y data hynny, argymhellir y dylai'r Prosiect roi gwybod am unrhyw broblemau i dimau Cefnogi Pobl awdurdodau lleol ac y dylai manyleb data well gael ei chyhoeddi i roi rhagor o wybodaeth am yr eitemau gofynnol o ddata.

- 3.13 Un o'r prif heriau sydd wedi dod i'r amlwg wrth gaffael data ôl-2016 yw bod y meini prawf ar gyfer cofnodi defnyddiwr gwasanaeth fel rhywun sydd wedi cael cymorth drwy'r Rhaglen – ac felly byddai'n cael ei ystyried yn ymyriad at ddibenion y Prosiect hwn – yn amrywio ledled Cymru. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cofnodion ar gyfer pobl na wnaethant ddefnyddio'r gwasanaeth er y cawsant eu hatgyfeirio, tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Gall hyn olygu bod rhai awdurdodau lleol yn cynnwys grŵp ehangach o unigolion yn y data gweinyddol nag eraill. Er mwyn sicrhau bod grŵp cyson o ddefnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl ledled Cymru yn cael ei ddadansoddi, dylid cael dogfennaeth lawn gan bob awdurdod lleol er mwyn deall ble mae dulliau casglu data neu brosesau gweithredol yn wahanol. Dylid nodi y bydd y data ar gyfer pob achos a ddarperir gan awdurdodau lleol i'r Prosiect yn cael ei gynnwys mewn gwaith dadansoddi oherwydd, fel y dangoswyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb, gellir cynnwys achosion lle mae unigolyn wedi 'methu â chymryd rhan', er enghraifft, fel un grŵp rheoli posibl at ddibenion dadansoddi (gweler yr astudiaeth ddichonoldeb am fanylion pellach).
- 3.14 Dylid nodi nad yw'r data ar ganlyniadau Cefnogi Pobl eu hunain yn cael eu darparu i Fanc Data SAIL, felly ni fyddant ar gael i'w dadansoddi (i gael rhagor o wybodaeth, gweler yr astudiaeth ddichonoldeb).

Problemau wrth Dadansoddi Data ar Iechyd ym Manc Data SAIL

- 3.15 Am ei fod yn cynnwys cofnodion iechyd cyffredinol o ansawdd da sy'n mynd yn ôl sawl blwyddyn, mae Banc Data SAIL yn galluogi i waith dadansoddi hydredol dilynol gael ei wneud. Fodd bynnag, mae'n cymryd tua chwe mis i gofnodion iechyd cyffredinol fod ar gael e.e. oherwydd yr angen i gwblhau gwaith codio clinigol ar y data. Ceir oedi pellach o hyd at dri mis tra bod y data yn cael eu lanlwytho a'u gwirio o ran ansawdd ym Manc Data SAIL. Golyga hyn, wrth gysylltu data Cefnogi Pobl â chofnodion iechyd cyffredinol, y bydd y data o'r naw mis mwyaf diweddar yn cael eu heithrio o'r gwaith dadansoddi. Er mai dim ond i gofnodion iechyd cyffredinol y mae'r oedi o chwe mis i godio yn berthnasol, gellir cael oedi o wahanol fathau wrth gysylltu â data gweinyddol cyffredinol o ffynonellau eraill e.e. data gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai cyfnod oedi o dri mis ar y mwyaf yn cael ei gyflwyno i lanlwytho a gwirio ansawdd pob set ddata a gafaelwyd gan y Prosiect i'w chysylltu.
- 3.16 Yn ogystal, mae angen i ddigon o amser dilynol fynd heibio ar ôl i ymyriad ddechrau – yn yr achos hwn, cymorth Cefnogi Pobl – er mwyn galluogi i unrhyw effaith ar ddigwyddiadau iechyd y derbynnydd, e.e. mynd i'r adran argyfwng, gael ei hadlewyrchu yn y data. O ran yr astudiaeth ddichonoldeb, dadansoddiwyd y cyfnod '12 mis cyn' a '12 mis ar ôl' dyddiad dechrau'r cymorth, ac mae dadansoddi cyfnod mor eang â hwn yn debygol o fod o ddiddordeb i'r Prosiect hwn. Fodd bynnag, gan y bydd y Prosiect yn defnyddio nifer y 'diwrnodau person' fel yr enwadur wrth gyfrifo cyfraddau, caiff data ar ddefnyddwyr gwasanaeth â llai na 12 mis llawn o amser dilynol eu cynnwys yn y dadansoddiad, fel y bydd y rhai â dim ond un mis llawn o amser dilynol, er enghraifft, yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer y 'mis cyntaf ar ôl i gymorth ddechrau', bydd defnyddwyr gwasanaeth â dau fis llawn o amser dilynol yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ar gyfer y 'mis cyntaf ar ôl i gymorth ddechrau' a'r 'ail fis ar ôl i gymorth ddechrau' ac ati. Bydd hyn yn galluogi i gymaint â phosibl o'r data sydd ar gael gael eu cynnwys yn nadansoddiad pob blwyddyn er mwyn i ddata, er enghraifft, ar ddefnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl

y dechreuodd eu cymorth mor hwyr ag wythnos gyntaf mis Ebrill 2019 allu cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar y bedwaredd flwyddyn ym mis Mawrth 2020.

- 3.17 Bydd yr oedi wrth sicrhau bod cofnodion setiau data gweinyddol cyffredinol ar gael yn broblem barhaus i'r Prosiect, ond roedd y broblem yn arbennig o ddifrifol wrth ddadansoddi data ôl-2016 yn y flwyddyn gyntaf pan roddwyd y Telerau ac Amodau newydd ar waith o 1 Ebrill 2016. Roedd hyn, yn ogystal â'r angen i ganolbwyntio ar gaffael data a gwirio ansawdd, wedi sbarduno'r Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl i benderfynu peidio â cheisio cynnwys dadansoddiad o ddangosyddion ieuchyd yn yr adroddiad hwn.

Cyfreithiol

- 3.18 Mae rhoi'r argymhellion a wnaed gan yr astudiaeth ddichonoldeb ar waith wedi lleddfu rhai o'r prif heriau a gafwyd wrth gaffael data ar y cam dichonoldeb. Roedd y rhain yn cynnwys gofyniad gorfodol o dan Delerau ac Amodau newydd grant Cefnogi Pobl i awdurdodau lleol ddarparu data i Fanc Data SAIL, canllawiau i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol i gysylltu megis codau post, a darparu manyleb data i awdurdodau lleol gan gynnwys taenlen casglu data wedi'i safoni. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ni chydymffurfiodd pob awdurdod lleol â'r gofynion hyn o 1 Ebrill 2016. Nid ymatebodd pob awdurdod lleol i geisiadau'r Prosiect am ddiweddariadau ar gynnydd, felly nid yw'r ffordd y maent yn rhoi'r gofynion newydd ar waith yn hysbys. Mae'r mater hwn bellach yn nwylo tîm polisi Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.
- 3.19 Rhoddwyd yr oedi wrth gysylltu â thimau cyfreithiol mewn rhai awdurdodau lleol fel rheswm dros beidio â chael trefniadau rhannu perthnasol ar waith ac fel rheswm dros beidio â darparu data i'r Prosiect yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Sgiliau, adnoddau a chapasiti

- 3.20 Mae personél mewn rhai timau Cefnogi Pobl sy'n gyfrifol am roi data wedi bod yn frwdfrydig iawn i rannu data at ddibenion cysylltu ac ymchwilio i effaith y Rhaglen. Fodd bynnag, roedd diffyg adnoddau a diffyg sgiliau technegol yn aml yn rhwystr naill ai i gymryd rhan neu i gymryd rhan amserol yn y Prosiect. Rhoddodd yr ymchwilydd gymorth dros y ffôn yn ôl yr angen, a chynorthwyodd â fformatio ffeiliau a lanlwytho data. Oherwydd yr angen i gynnal gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth llym, ni chaiff yr ymchwilydd weld data crai sy'n cynnwys manylion personol, ond gallai mwy o gymorth ymarferol fod o fudd a bydd opsiynau'n cael eu hystyried yn yr ail flwyddyn.
- 3.21 Roedd nifer o awdurdodau lleol yn pryderu bod y broses yn achosi problemau wrth ymdrin â darparwyr ac yn dyblygu ymdrech wrth gasglu data. Roedd pob awdurdod lleol yn Rhanbarth Gogledd Cymru yn pryderu am ddyblygu ymdrechion, gan awgrymu bod darparwyr wedi cwyno eu bod eisoes yn darparu gwybodaeth debyg at ddibenion eraill, e.e. ar gyfer y data ar ganlyniadau. Awgrymodd Rhanbarth Gogledd Cymru y gallai'r ffurflen ar-lein bresennol ar gyfer casglu data ar ganlyniadau gael ei newid fel bod modd ei defnyddio i gysylltu data hefyd. Mae'r ymchwilydd wedi gweithio gyda Chonwy a bydd y ffurflen ganlyniadau yn cael ei newid at y diben hwn. Mae Rhanbarth Gogledd Cymru hefyd yn gweithio ar gytundeb datgelu data cyfunol.

Technegol

- 3.22 Er bod y fanyleb data wedi helpu awdurdodau lleol i amlinellu'r data sydd eu hangen arnynt gan ddarparwyr, mae'n debygol y bydd angen i'r data gael eu glanhau a'u hail-fformatio o hyd gan dimau'r awdurdodau lleol ar ôl eu caffael gan ddarparwyr gwasanaeth a chyn y gellir eu lanlwytho i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Banc Data SAIL.
- 3.23 Er mwyn sicrhau bod y data yn y fformat cywir i'w lanlwytho i Fanc Data SAIL/Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, mae angen i unigolyn gael sgiliau Excel eithaf da a dealltwriaeth o'r gofynion i hollti ffeiliau. Os na chaiff data eu cyflwyno'n gywir, gall achosi oedi. Mae'r ffaith bod y cyfarwyddiadau a ddarperir gan Fanc Data SAIL yn dechnegol yn ychwanegu at yr her i greu echdyniadau data yn y fformat cywir.

4. Casgliadau, Argymhellion a'r Camau Nesaf

Casgliadau

- 4.1 Fel y nodwyd uchod, er gwaethaf yr amser cyfyngedig iawn a oedd ar gael i ymgymryd â gweithgareddau'r Prosiect yn ystod ei flwyddyn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o amcanion y flwyddyn gyntaf wedi'u cwblhau. Cafodd data gan wyth awdurdod lleol eu caffael ac, o ran data ôl-2016, cadarnhaodd 11 o awdurdodau lleol eraill bod y ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i rannu data ar waith a bod gwaith yn mynd rhagddo i wneud cytundebau datgelu data â Banc Data SAIL. Fodd bynnag, yn yr ail flwyddyn mae angen i'r ymchwilydd a thîm Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru weithio gyda'r tri awdurdod lleol nad oedd wedi ymgysylltu â'r Prosiect yn y flwyddyn gyntaf.
- 4.2 Ceir heriau o hyd o ran ansawdd data, ond mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i wella'r ffordd y caiff data eu casglu a'u darparu.
- 4.3 Fel y trafodwyd uchod, roedd yr oedi wrth sicrhau bod cofnodion iechyd cyffredinol ar gael a'r angen i ganolbwyntio ar gaffael data a gwirio ansawdd wedi sbarduno'r Grŵp Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl i benderfynu peidio â cheisio cynnwys dadansoddiad o ddangosyddion iechyd yn yr adroddiad hwn.

Argymhellion

- 4.4 Mae'r prif argymhellion canlynol ar gyfer yr ail flwyddyn wedi deillio o'r gweithgareddau yr ymgymerydd â nhw yn y flwyddyn gyntaf:
- Dylid adolygu proses awdurdodau lleol o greu cofnod Cefnogi Pobl er mwyn sicrhau bod y diffiniad o ddefnyddiwr gwasanaeth Cefnogi Pobl yn gyson ledled Cymru, h.y. bod cysondeb yn yr achosion a gaiff eu diffinio'n 'defnyddwyr' yn erbyn 'methu ag ymgysylltu' neu 'aflwyddiannus', er enghraifft.
 - Fel y nodwyd uchod, byddai caffael data cyn-2016 yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r Prosiect. Felly, dylid penderfynu, drwy ymgynghori â Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, p'un ai i barhau i fynd ar drywydd data cyn-2016 gan awdurdodau lleol a wrthododd ddarparu data yn flaenorol.
 - Dylai'r Prosiect a thimau Cefnogi Pobl mewn awdurdodau lleol gyfathrebu'n barhaus i wella proses casglu, safoni a gwirio ansawdd data, a dylai manyleb data well gael ei chyhoeddi gan y Prosiect i roi rhagor o wybodaeth am yr eitemau gofynnol o ddata. Dylid rhoi pwyslais ar gipio'r eitemau 'adnabyddadwy' o ddata sydd eu hangen i gysylltu data.

Y Camau Nesaf

4.5 Yn gryno, yr amcanion ar gyfer yr ail flwyddyn yw:

- Sicrhau bod cytundebau datgelu data Banc Data SAIL ar waith a chaffael data ôl-2016 gan yr 11 o awdurdodau lleol sydd wedi cytuno i ddarparu data i'r Prosiect
- Llywodraeth Cymru i gysylltu â'r 3 awdurdod lleol lle nad oes cytundeb presennol i rannu data ôl-2016
- Adolygu ansawdd y data Cefnogi Pobl a ddarparwyd i'r Prosiect e.e. cyfraddau cysylltu, nifer yr eitemau o ddata sydd ar goll, gan gynnwys rhoi adborth i awdurdodau lleol i wella'r ffordd y caiff data eu casglu ac ymchwilio ymhellach i achosion lle nad yw'r 'prif anghenion' wedi'u cofnodi
- Cytuno ar gwestiynau ymchwil gyda'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso Cefnogi Pobl, paratoi cynllun dadansoddi a dadansoddi'r defnydd o wasanaethau iechyd
- Ceisio nodi grwpiau rheoli addas at ddibenion dadansoddi
- Gweithio gydag economegydd o Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ddichonoldeb creu model gwrthbwysu cost ymhellach
- Mynd ar drywydd setiau data sy'n ymwneud â dangosyddion ychwanegol, blaenoriaethu data gofal cymdeithasol, opsiynau tai a chyrraeddad addysgol; cytuno ar amserlenni caffael.

Atodiad A Manyleb Data

Tabl 1 Data adnabyddadwy yn 'Ffeil 1' a roddwyd yn ôl Manyleb Data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

ID_SYSTEM	e.e. 1
RHIF_GIG	GADEWCH YN WAG
CYFENW	e.e. Bloggs
ENW CYNTAF	e.e. Joe
CYFEIRIAD_1	e.e. 1 Heol Gwyddor Data
CYFEIRIAD_2	e.e. Singleton
CYFEIRIAD_3	e.e. Abertawe
CYFEIRIAD_4	
CYFEIRIAD_5	
COD POST	e.e. SA2 8PP neu CF10 3NQ
DYDDIAD_GENI	e.e. 20.01.1955
RHYW	1=GWRYWAIDD 2=BENYWAIDD 3=ANHYSBYS
DYDDIAD_CREU	DD.MM.BBBB
RHYW_YCHWANEGOL	

* Mae'r tabl hwn yn nodi'r newidynnau y mae angen i awdurdodau lleol eu darparu i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru at ddibenion cysylltu, a'r union fformat y mae'n rhaid iddynt eu dilyn e.e. dyddiad geni yn fformat DD.MM.BBBB

Tabl 2 Data Gweinyddol Cefnogi Pobl yn 'Ffeil 2' a roddwyd i Fanc Data SAIL

ID_SYSTEM	e.e. 1
DYDDIAD-ATGYFEIRIO	DD.MM.BBBB
PRIF_ANGHENION	
ANGHENION EILAIIDD	
ANGHENION TRYDYDDOL	
ETHNIGRWYDD	
FFYNHONNELL_ATGYFEIRIO	
MATH_O_WASANAETH	e.e. Cymorth fel y bo'r angen
DYDDIAD_DECHRAU_CYMORTH	DD.MM.BBBB
DYDDIAD_TERFYNU_CYMORTH	DD.MM.BBBB
HYD_CYMORTH	
DYDDIAD-AIL-ATGYFEIRIO	DD.MM.BBBB
RHESWM_AFLWYDDIANNUS	e.e. Ddim yn gymwys
RHESWM_TERFYNU	e.e. Diwallu anghenion cymorth

* Mae'r tabl hwn yn nodi'r newidynnau y mae angen i awdurdodau lleol eu darparu i Fanc Data SAIL at ddibenion darparu gwybodaeth am y cymorth y mae pobl wedi'i gael, a'r union fformat y mae'n rhaid iddynt eu dilyn e.e. dyddiad dechrau cymorth yn fformat DD.MM.BBBB

Atodiad B

"Bydd pob awdurdod lleol a darparwr yn cyflwyno ymwrthodiad wedi'i ddiweddarau er mwyn sicrhau bod pobl sy'n cael cymorth yn gwybod y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil. Erbyn 30 Medi 2016, bydd pob awdurdod lleol hefyd wedi datblygu cytundebau rhannu data priodol er mwyn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu at ddibenion ymchwil ac ystadegau rhwng adrannau perthnasol yr awdurdod, ond hefyd gyda Banc Data SAIL."

"Erbyn 30 Medi 2016, bydd gennych gytundeb rhannu data ar waith a fydd yn eich galluogi i rannu data rhwng timau mewnol eraill yr awdurdod lleol a chyda awdurdodau lleol allanol a/neu Lywodraeth Cymru a'i hasiantau at ddibenion cynllunio, ymchwil ac ystadegau."

O ran rhannu data unigol â Llywodraeth Cymru a/neu ei hasiantau, mae hyn yn gysylltiedig â'r astudiaeth cysylltu data ac yn bwysig iawn at ddibenion ymchwil ac ystadegau. Data gweinyddol a gedwir ar ddefnyddwyr gwasanaeth, fel y nodir isod, yw'r math o wybodaeth a all fod yn angenrheidiol at y diben hwn, ond nodwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol;

Rhif GIG (os yw ar gael)

Enw cyntaf

Enw olaf

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad Geni

Rhyw